

At: Aelodau'r Pwyllgor Trwyddedu

Dyddiad: 16 Mehefin 2022

Rhif Union: 01824 712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR TRWYDDEDU, DYDD MERCHER, 22 MEHEFIN 2022** am **9.30 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 PENODI CADEIRYDD

Penodi Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.

3 PENODI IS-GADEIRYDD

Penodi Is-Gadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu am y flwyddyn i ddod.

4 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

5 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972

6 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF (Tudalennau 9 - 14)

Derbyn cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 2 Mawrth 2022 (copi ynghlwm).

7 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI (Tudalennau 15 - 40)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn ceisio adolygiad pellach y Pwyllgor o'r ffioedd tariff cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis) yn dilyn yr ymgynghoriad ar y ffioedd tariff arfaethedig.

8 Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AR WAITH YR ADAIN DRWYDDEDU YN 2021/22 (Tudalennau 41 - 46)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) ar waith yr Adain Drwyddedu yn 2021/22.

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022 (Tudalennau 47 - 52)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm), ar flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig a'r wybodaeth ddiweddaraf ar eitemau a aildefnwyd.

RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bod yr eitem ganlynol yn cael ei hystyried oherwydd y tebygolrwydd o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

10 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 557452 (Tudalennau 53 - 84)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (copi ynghlwm) yn gofyn i aelodau benderfynu ar gais i yrru cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278.

10.45 am

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Joan Butterfield

Delyth Jones

Gwyneth Ellis
Bobby Feeley
Martyn Hogg
Hugh Irving
Alan James

Paul Keddie
Win Mullen-James
Andrea Tomlin
Michelle Walker

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR TRWYDDEDU
GWEITHDREFN ER MWYN PENDERFYNU AR GEISIADAU AM
DRWYDDEDAU GYRWYR CERBYDAU HACNI A CHERBYDAU HURIO
PREIFAT AC ADOLYGU GYRWYR TRWYDDEDIG PRESENNOL**

CAM	DISGRIFIAD
1.	Dylai'r Cadeirydd groesawu a chyflwyno'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i bawb sy'n bresennol.
2.	Dylai'r Cyfreithiwr ofyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded i gadarnhau ei fod/bod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r Pwyllgor. Os yw'r ymgeisydd yn ateb yn gadarnhaol, dylid symud ymlaen at gam 4.
3.	Pe digwydd i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ddweud nad yw wedi derbyn yr adroddiad, yna dylid cyfarch y mater yn awr. Gallai'r Aelodau fod eisiau ystyried gohirio'r mater, am gyfnod byr, er mwyn i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gael cyfle i ddarllen yr adroddiad.
4.	Dylai Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (neu gynrychiolydd ar ei ran) gyflwyno'r cais/adolygiad yn fras
5.	Gofynnir i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded gyflwyno ei achos/hachos Gall yr ymgeisydd/deilydd y drwydded alw unrhyw dyst y mae'n eu dewis i gefnogi ei gais/chais, a dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r Swyddogion Trwyddedu ynglŷn â hynny.
6.	Gall Aelodau'r Pwyllgor holi'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ac /neu ei dystion ei thystion.
7.	Gwahoddir swyddogion technegol i gyflwyno unrhyw ganfyddiadau (Gorfodaeth Trwyddedu/Cymunedol, Tîm Cyswllt Cyntaf (y Gwasanaethau Cymdeithasol), Cludiant Ysgolion.)
8.	Gall Aelodau'r Pwyllgor ac yna'r ymgeisydd/deilydd y drwydded ofyn cwestiynau i'r swyddogion technegol
9.	Gwahoddir yr ymgeisydd/deilydd y drwydded i gyflwyno sylwadau i gloi, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
10.	Gofynnir i'r canlynol adael y cyfarfod tra trafodir y cais/yr adolygiad gan yr Aelodau - yr ymgeisydd/deilydd y drwydded, pob trydydd parti, Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd, swyddogion technegol. DS yr unig rai a ddylai fod yn weddill yw – Aelodau'r Pwyllgor, cyfieithydd, cynghorydd cyfreithiol y pwyllgor a'r sawl sy'n cymryd y cofnodion.

11.	Dylai aelodau'r pwyllgor roi ystyriaeth i'r cais/adolygiad gan roi cyfrif am y dystiolaeth a glywyd.
12.	Pe bai'n angenrheidiol i Aelodau'r Pwyllgor alw unrhyw barti yn eu holau i'w holi neu i ofyn iddynt ddarparu rhagor o wybodaeth neu egluro rhywbeth, gwahoddir pawb a fydd wedi ymneilltuo o'r cyfarfod yn eu holau. Wedi i'r cwestiwn (cwestiynau) gael eu hateb gofynnir i bob trydydd parti ymneilltuo unwaith eto er mwyn i'r Aelodau gael ystyried y dystiolaeth i gyd.
13.	Pan fo'r Aelodau wedi dod i benderfyniad, gelwir yr holl bartïon yn eu holau a chaiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded wybod beth yw penderfyniad yr Aelodau gan y Cadeirydd.
14.	Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded o'r penderfyniad y daethpwyd iddo. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw amodau neu gosbau sydd wedi eu gosod. Os oes angen, dylai Cyfreithiwr y Cyngor gyflwyno eglurhad pellach ynglŷn â'r penderfyniad a'i oblygiadau i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded.
15.	Os mai'r penderfyniad yw gwrthod neu os oes penderfyniad i atal neu ddirymu, dylai Cyfreithiwr y Cyngor roi gwybod i'r ymgeisydd/deilydd y drwydded am yr hawl i apelio i Lys Ynadon (bydd y llythyr penderfyniad hefyd yn cynnwys y manylion hyn).
16.	Ar gyfer gyrrwr sydd eisoes wedi ei drwyddedu (a bod y drwydded wedi ei rhoi gan Sir Ddinbych), a bod penderfyniad y Pwyllgor yn ymwneud ag atal neu ddirymu'r drwydded bresennol, gall yr Aelodau wneud hynny naill ai o dan: 1. Adran 61 (2A) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. 2. Adran 61 (2B) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Daw'r penderfyniad hwn i rym YN SYTH ac ni ellir ei ddefnyddio ond pan fo'r sail dros atal/dirymu yn fater sy'n ymwneud â diogelwch y cyhoedd. Bydd y Cyfreithiwr yn esbonio goblygiadau'r penderfyniad wrth ddeilydd y drwydded.
17.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei hysbysu o'r penderfyniad yn ysgrifenedig cyn gynted ag y bo'r ymarferol bosibl.
18.	Caiff yr ymgeisydd/deilydd y drwydded ei wahodd/gwahodd i drafod unrhyw fater y mae'n ansicr yn ei gylch gyda Swyddogion Trwyddedu yn dilyn y Pwyllgor.

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(Gweler y nodyn isod)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR TRWYDDEDU

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd drwy gynhadledd fideo ddydd Mercher, 2 Mawrth 2022 am 9.30 am.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Joan Butterfield, Gwyneth Ellis, Brian Jones (yr Is-gadeirydd yn Cadeirio), Barry Mellor, Merfyn Parry, Arwel Roberts, Peter Scott a Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Cyfreithiwr – Arweinydd Tîm – Lleoedd (TD), Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd (IM), Uwch Swyddog Trwyddedu (NJ), Swyddog Gorfodi (Trwyddedu) (KB), Swyddog Cyfreithiol (SR) a Swyddogion Pwyllgor (KEJ & SJ [Gweddarlledwr])

PWYNT I'W NODI

Yn absenoldeb y Cadeirydd, y Cynghorydd Hugh Irving, gwnaeth yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Brian Jones, gadeirio'r cyfarfod hwn.

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Hugh Irving (Cadeirydd), Melvyn Mile a Pete Prendergast

2 DATGANIADAU O GYSYLLTIAD

Datganodd y Cynghorydd Huw Williams gysylltiad personol yn eitem rhif 7 ar y rhaglen gan fod yr ymgeisydd a/neu ei bartner wedi casglu ei fab o'r ysgol rai blynyddoedd yn ôl.

3 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Trwyddedu a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021.

PENDERFYNWYD derbyn a chadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Rhagfyr 2021 yn gofnod cywir.

[Fe wnaeth y Cynghorydd Joan Butterfield ymatal rhag pleidleisio ar yr eitem hon gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod y sonnir amdano uchod.]

5 NEWIDIADAU ARFAETHEDIG I DABL FFIOEDD CERBYDAU HACNI

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd adroddiad (a ddisbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn i aelodau adolygu'r ffioedd presennol ar gyfer cerbydau hacni (tacsis). Cafodd y tabl ffioedd ei ddiwygio'r tro diwethaf yn 2018.

Yn dilyn cais gan nifer o yrwyr trwyddedig i adolygu'r ffioedd presennol, roedd swyddogion wedi gwerthuso dau gynnig a roddwyd gerbron gan yrwyr trwyddedig, ynghyd ag ychwanegiad i gynnig 2 a amlinellwyd yn yr adroddiad ochr yn ochr â'r ffioedd presennol, er mwyn cymharu a bod yn dryloyw. Cyfeiriwyd hefyd at sefyllfa bresennol yr awdurdod yn "nhabl y gynghrair" o ffioedd tacsis, o'i gymharu â'r cynnig a oedd yn gyfystyr â chynnydd o 7% yn y costau ar gyfer taith dwy filltir o hyd. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi adolygu eu ffioedd yn ddiweddar ac roedden nhw'n cyd-fynd yn fras â'r cynnig a roddwyd gerbron yr awdurdod. Rhoddwyd manylion am y broses o lunio penderfyniadau, yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ar y ffioedd a ffefrir, a byddai unrhyw wrthwynebiad a geir yn cael ei gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor.

Cafodd yr Aelodau drafodaeth am yr adroddiad a mynegwyd cefnogaeth gyffredinol i gynnig 2 gyda'r ychwanegiad, gan gofio'r costau cynyddol sy'n wynebu'r diwydiant tacsis o ran tanwydd a chynnal a chadw cerbydau, a sicrhau bod cwmnïau tacsis'n dal i fod yn gost effeithiol ac yn hyfyw yn yr hinsawdd sydd ohoni. Teimlwyd hefyd y byddai'r ychwanegiad yn denu digon o yrwyr er mwyn cwrdd â'r galw gan gwsmeriaid dros y penwythnos. Wedi dweud hyn, roedd aelodau hefyd yn cydnabod yr effaith ar ddefnyddwyr tacsis yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni ac roedden nhw'n cefnogi'r ymgynghoriad ynghylch y cynnydd arfaethedig mewn ffioedd er mwyn canfod barn y cyhoedd a'r diwydiant tacsis yn ehangach cyn y gwneir penderfyniad terfynol. Nodwyd mai'r tabl ffioedd a osodir gan y Cyngor yw'r ffioedd mwyaf a ganiateir a gellir cytuno ar ffi ratach gyda'r cwsmer. Yn olaf, soniwyd bod angen edrych ar ddefnyddio cerbydau trydan wrth feddwl am y dyfodol, pan fydd yr isadeiledd yn ei le, ac roedd y Cadeirydd yn hyderus y gwelir datblygiadau gyda'r uchelgais honno yn ystod tymor nesaf y Cyngor.

PENDERFYNWYD bod aelodau yn –

- (a) *awdurdodi swyddogion i fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ynghylch cynnig 2 ym mharagraff 4.2 yr adroddiad, ynghyd â'r ychwanegiad ym mharagraff 4.3 yr adroddiad;*
- (b) *rhoi cyfarwyddyd i swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu rhag ofn y derbynnir unrhyw wrthwynebiad i'r ymgynghoriad;*
- (c) *rhoi cyfarwyddyd i swyddogion gyhoeddi'r hysbysiad cyhoeddus angenrheidiol os na dderbynnir unrhyw wrthwynebiad i'r ymgynghoriad, a rhoi'r ffioedd ar waith ar ôl y cyfnod statudol os na dderbynnir rhagor o wrthwynebiad wedi hynny, a*
- (ch) *rhoi cyfarwyddyd i swyddogion baratoi adroddiad ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Trwyddedu os derbynnir unrhyw wrthwynebiad ar ôl yr hysbysiad statudol.*

6 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR TRWYDDEDU AR GYFER 2022

Cyflwynodd yr Uwch Swyddog Trwyddedu adroddiad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) am flaenoriaethau'r Adain Drwyddedu ynghyd â'r wybodaeth ddiweddaraf am eitemau a aildrefnwyd a'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig a gynigiwyd ar gyfer 2022.

Roedd blaenoriaethau'r Adain Drwyddedu yn adlewyrchu'r ddyletswydd a roddir ar yr awdurdod mewn perthynas â'i gyfrifoldebau ar gyfer y swyddogaeth drwyddedu a dulliau rheoleiddio, rheoli a gorfodi deiliad trwydded mewn ffordd effeithiol, ynghyd ag ymroddiad yr awdurdod i sicrhau cymunedau mwy diogel a datblygu'r economi. Yn sgil blaenoriaethau annisgwyl, diwygiwyd y rhaglen gwaith i'r dyfodol a gafodd ei chymeradwyo eisoes, cafodd eitemau eu haildrefnu a chyflwynwyd rhaglen waith ddiwygiedig i'w hystyried.

Rhodddwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar yr eitemau hynny a fydd yn cael eu dwyn ymlaen i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth, yn ymwneud â'r materion canlynol -

- Adolygu Datganiad o Bolisi Trwyddedu Cerbyd Hacni/Hurio Preifat
- Adolygu Datganiad o Egwyddorion - Deddf Gamblo 2005
- Adolygu'r Polisi Masnachu ar y Stryd
- Datganiad o Bolisi Trwyddedu – Deddf Trwyddedu 2003
- Adolygu Ffioedd a Thaliadau

Nododd yr Aelodau y wybodaeth ddiweddaraf a'r newidiadau arfaethedig i'r rhaglen gwaith i'r dyfodol a fydd yn cael ei datblygu yn nhymor newydd y Cyngor.

PENDERFYNWYD –

- (a) *nodi cynnwys yr adroddiad, a*
- (b) *chymeradwyo'r rhaglen gwaith i'r dyfodol ddiwygiedig ar gyfer 2022 fel y manylir amdani yn atodiad yr adroddiad.*

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol, dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.

[Ar y pwynt hwn (10.05 am) cymerodd y pwyllgor egwyl fer.]

7 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 557452

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddsbarthwyd ymlaen llaw) ynghylch –

- (i) derbyn cais gan Ymgeisydd Rhif 557452 am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat;
- (ii) bod swyddogion wedi atgyfeirio'r cais at y Pwyllgor Trwyddedu i benderfynu yn ei gyloch oherwydd amgylchiadau penodol yr achos;
- (iii) cafodd trwydded yr Ymgeisydd i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat ei dirymu ym Mai 2021 yn dilyn cyfres o gollfarnau am oryrru (yn y cyfnod rhwng Chwefror 2018 a Medi 2020) ac o ganlyniad cafodd ei wahardd rhag gyrru am gyfnod o chwe mis yn sgil y drefn adio pwyntiau cosb (TT99);
- (iv) rhagor o wybodaeth yn ymwneud â'r achos, yn cynnwys y cais ynghyd â'r adroddiad yn sôn am y gwaharddiad a geirdaon ar sail cymeriad a gyflwynwyd gan yr Ymgeisydd ac a ddisbarthwyd fel ychwanegiad i'r rhaglen;
- (v) nad oedd swyddogion wedi cwblhau'r holl wiriadau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â chais y gyrrwr trwyddedig;
- (vi) polisi'r Cyngor mewn perthynas ag addasrwydd ymgeiswyr, a
- (vii) bod yr Ymgeisydd wedi ei wahodd i fynychu'r cyfarfod i gefnogi ei gais ac i ateb cwestiynau'r aelodau wedi hynny.

Cadarnhaodd yr Ymgeisydd ei fod wedi derbyn yr adroddiad a gweithdrefnau'r pwyllgor.

Cyflwynodd y Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd yr adroddiad a ffeithiau'r achos.

Esboniodd yr Ymgeisydd ei fod wedi derbyn y collfarnau goryrru tra roedd yn gyrru beic modur ac, yn sgil y collfarnau hynny, roedd wedi rhoi'r gorau i'r hobi hwnnw a gwerthu'r beic modur. Mynegodd yr Ymgeisydd edifeirwch am y troseddau goryrru a rhoddodd sicrwydd ynghylch ei ymddygiad pan yn gyrru. Ychwanegodd yr Ymgeisydd fod ganddo drwydded cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat am bymtheg mlynedd cyn hynny heb unrhyw broblem a'i fod wedi rhedeg ei fusnes ei hun dros yr wyth mlynedd diwethaf heb unrhyw broblem. Wrth ymateb i gwestiynau aelodau, cadarnhaodd yr Ymgeisydd fod pob trosedd goryrru wedi digwydd pan oedd yn gyrru beic modur ac nad oedd unrhyw drosedd goryrru wedi digwydd pan oedd yn gyrru tacsî, gan ychwanegu bod ei ymddygiad wrth yrru tacsî wedi bod yn rhagorol bob amser. Yn ei ddatganiad terfynol, ymddiheurodd yr Ymgeisydd am ei weithredoedd a diolchodd i'r aelodau am ystyried ei gais.

Oedodd y Pwyllgor er mwyn ystyried y cais a -

PENDERFYNWYD, yn amodol ar sicrhau bod pob gwiriad angenrheidiol arall sy'n gysylltiedig â chais gyrrwr trwyddedig yn foddhaol, y dylid caniatáu'r cais am drwydded yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 557452.

Roedd yr aelodau wedi ystyried amgylchiadau penodol yr achos yn ofalus, fel yr oeddent i'w gweld yn yr adroddiad, ynghyd â chyflwyniadau'r Ymgeisydd, atebion i gwestiynau, a'r geiradaon ar sail cymeriad a ddarparwyd. Roedd yr aelodau hefyd wedi ystyried yr adrannau perthnasol yn Natganiad Polisi'r Cyngor ynghylch addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwydded ym myd masnach cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat.

Yn benodol, fe ystyriodd y Pwyllgor adran 4.22 y polisi, lle nodir os bydd gan berson fwy nag un gollfarn, y byddai hynny'n codi cwestiynau difrifol am eu diogelwch a pha mor addas ydyn nhw, ac unwaith y gwelir patrwm neu duedd i aildroseddu, ni chaiff trwydded ei rhoi na'i hadnewyddu. Yn yr achos hwn, mae'r patrwm o ymddygiad troseddol yn ymwneud â chyfres o gollfarnau goryrru a gafwyd gan yr Ymgeisydd ac a arweiniodd at waharddiad gyrru am chwe mis o dan y drefn adio pwyntiau cosb. O ran hynny, derbyniodd y Pwyllgor esboniad yr Ymgeisydd ei fod wedi cael y collfarnau goryrru wrth yrru beic modur yn unig, drwy weithgareddau hamdden, ac nid mewn perthynas â busnes yr Ymgeisydd nac mewn cyd-destun proffesiynol fel gyrrwr trwyddedig.

Gan gofio'r ddarpariaeth uchod yn y polisi, fe wnaeth y Pwyllgor yna ystyried adran 3.19 yn yr un polisi, a oedd yn datgan na ddylid ond gwyro oddi wrth ddarpariaeth yn y polisi mewn amgylchiadau eithriadol ac am resymau cyfiawn.

Credai'r Aelodau fod yr Ymgeisydd yn gredadwy ac yn ddiffuant yn ei gyflwyniad i'r Pwyllgor ac wrth ymateb i gwestiynau, ac ar ôl derbyn esboniad yr Ymgeisydd am yr ymddygiad troseddol, a chan ystyried fod gan yr Ymgeisydd drwydded lân fel gyrrwr trwyddedig cyn hynny, a'r geiradaon ar sail cymeriad a ddarparwyd, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod yr Ymgeisydd yn berson addas a phriodol i gael trwydded. Daeth y Pwyllgor i'r casgliad felly fod yna amgylchiadau eithriadol a rhesymau cyfiawn, sef bod y collfarnau goryrru a gafodd yr Ymgeisydd yn ymwneud â beicio modur yn unig ac nad oedd yn gysylltiedig â'i fusnes na phan roedd yn gyrru yn ei waith fel gyrrwr trwyddedig, dan adran 3.19 y polisi, i wyro oddi wrth y ddarpariaeth yn adran 4.22 a chaniatáu'r cais.

Cafodd penderfyniad a rhesymau'r Pwyllgor felly eu cyfleu i'r Ymgeisydd.

8 CAIS AM DRWYDDED I YRRU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HURIO PREIFAT - RHIF YMGEISYDD 554278

Cyflwynwyd adroddiad cyfrinachol gan y Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad (a ddosbarthwyd ymlaen llaw) yn gofyn am benderfyniad ynghylch cais i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278. Rhoddwyd gwybod i'r swyddogion y bore hwnnw gan gynrychiolydd yr Ymgeisydd fod yr Ymgeisydd wedi gorfod mynd i'r ysbyty ac felly na allai fynychu'r cyfarfod. Nid oedd yn eglur a oedd yr Ymgeisydd yn dymuno parhau â'i gais neu beidio. O ganlyniad, gofynnodd cynrychiolydd yr Ymgeisydd a ellid gohirio'r achos er mwyn canfod bwriad yr Ymgeisydd mewn perthynas â'r cais.

Amlinellodd y Cyngorwr Cyfreithiol y dewisiadau a oedd ar gael i'r Pwyllgor sef naill ai gohirio'r mater at amser arall, neu fwrw ymlaen i benderfynu ynghylch y cais

yn absenoldeb yr Ymgeisydd. Gan gofio'r amgylchiadau yn yr achos hwn, ac er tegwch, rhoddwyd cyngor cyfreithiol y dylai'r aelodau ohirio'r penderfyniad.

Ar ôl ystyried y cais i ohirio, ynghyd â'r cyngor cyfreithiol a roddwyd, ac ar ôl cynnal pleidlais, wedi hynny -

PENDERFYNWYD y dylid gohirio ystyried y cais am drwydded i yrru cerbyd hacni a cherbydau hurio preifat gan Ymgeisydd Rhif 554278 tan y cyfarfod nesaf a drefnir gan y Pwyllgor Trwyddedu.

Cyn cloi'r cyfarfod, ac yn absenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor Trwyddedu, y Cynghorydd Hugh Irving, ac ar ei ran, diolchodd yr Is-gadeirydd, y Cynghorydd Brian Jones, i'r aelodau am eu gwaith caled a'u gwasanaeth ar y Pwyllgor. Diolchwyd hefyd i'r swyddogion trwyddedu a'r swyddogion cymorth. Cyfeiriwyd yn arbennig at Gynghorwr Cyfreithiol y Pwyllgor a oedd yn mynychu ei gyfarfod olaf o'r Pwyllgor Trwyddedu, gan ddymuno'n dda iawn iddo yn y dyfodol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 am.

ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	22 Mehefin 2022
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Gwasanaethau Cefn Gwlad
SWYDDOG CYSWLLT:	Rheolwr Busnes Gwarchod y Cyhoedd trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706066
PWNC:	Newidiadau Arfaethedig i Dabl Ffioedd a Phrisiau Cerbydau Hacni

1.0 DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Adolygu'r prisiau tariff cyfredol ar gyfer cerbydau hacni (taxis).

2.0 CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Yn dilyn cais gan nifer o yrwyr trwyddedig i adolygu'r prisiau tariff cyfredol, mae swyddogion wedi drafftio cynigion i ymgynghori arnyn nhw.

3.0 PŴER I WNEUD Y PENDERFYNIAD

3.1 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

4.0 GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Mae Adran 65 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 ("y Ddeddf") yn caniatáu i'r Cyngor osod cyfraddau neu ffioedd o fewn y sir mewn perthynas â llogi cerbyd.

4.2 Ystyriodd yr Aelodau adroddiad yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Trwyddedu a phenderfynwyd y dylai Swyddogion ymgynghori ar y cynigion y cytunwyd arnynt ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trwyddedu os oedd gwrthwynebiadau.

4.3 Yn dilyn penderfyniad dirprwyedig gan yr Aelod Arweiniol, cyhoeddodd y swyddogion yr hysbysiad statudol yn y wasg leol, fel y mae yn Atodiad A.

4.4 O ganlyniad i'r atodiad hwnnw, cyflwynwyd pedwar ar ddeg o wrthwynebiadau o fewn y cyfnod angenrheidiol o 14 diwrnod. Mae crynodeb o'r gwrthwynebiadau hynny wedi'i olygu ac ar gael yn Atodiad B.

- 4.5 Dywedodd y swyddogion wrth bob gyrrwr trwyddedig na fyddai'r newid arfaethedig i'r tariff yn cael ei wneud nes byddai'r Aelodau wedi ystyried y gwrthwynebiadau. O ganlyniad, derbyniwyd nifer o sylwadau yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig i'r tariff ac mae'r rhain wedi'u hatodi fel Atodiad C. Cafwyd dwy ddeiseb hefyd, wedi'u llofnodi gan 38 o yrwyr trwyddedig.
- 4.6 Mae'r tariff arfaethedig wedi'i atodi yn Atodiad D ac mae'r newidiadau sy'n cael eu cynnig wedi'u hamlygu.

5.0 YSTYRIAETHAU

- 5.1 Cafodd y "tabl ffioedd" ei newid ddiwethaf yn 2018.
- 5.2 Mae'r prisiau am bellter yn cael eu defnyddio i greu "tabl cynghrair" o brisiau tacsï ledled y DU, sy'n cael ei greu gan y *Private Hire and Taxi Monthly*. Ar sail y prisiau cyfredol (£5.60), mae Sir Ddinbych yn rhif 268 o gyfanswm o 359 o Awdurdodau Lleol ledled y DU; rhif 13 o 22 yng Nghymru a rhif 5 o 6 yng Ngogledd Cymru (Mai 2022). Efallai y bydd yr Aelodau'n dymuno nodi y bydd y cynnig hwn yn rhoi Sir Ddinbych yn y 7^{fed} safle uchaf yng Nghymru ac, ar y cyd â Gwynedd, yr 2^{il} uchaf yng Ngogledd Cymru, gyda'r un daith yn costio £6.00. Conwy sydd â'r pris uchaf yn y rhanbarth ar ôl newid eu prisiau yn ddiweddar, sef £6.60.
- 5.3 Mae'r cymariaethau'n seiliedig ar daith o ddwy filltir ar y tariff arferol ("Tariff 1") ac nid yw'n cynnwys unrhyw ychwanegion. Safle "1" yw'r drutaf.
- 5.4 Mae'r cynigion yn golygu cynnydd o 7% am daith o ddwy filltir, er bod y ganran hon yn cynyddu wrth deithio ymhellach.
- 5.5 Bydd yr Aelodau'n dymuno ystyried barn gwrthwynebwyr a chefnogwyr i'r cynnig wrth benderfynu a oes angen newid y tariff ac, yn benodol, efallai y byddent yn ystyried agweddau fel:
- Amseriad tariff 2
 - Y diwrnodau lle mae tariff 2 yn cael ei ddefnyddio
 - A yw'r gyfradd fesul milltir yn fesur priodol am bellter ychwanegol? A yw fesul hanner milltir yn well?
- 5.6 Ar ôl ystyried y gwrthwynebiadau, mae'n rhaid i'r Cyngor osod dyddiad cyflwyno i'r tariff, gyda neu heb unrhyw newidiadau, ac mae'n rhaid i'r dyddiad hwn fod o fewn dau fis i'r dyddiad sydd wedi'i nodi yn yr hysbysiad y cyfeirir ato ym mharagraff 4.3. Er eglurder, dyddiad cyflwyno'r hysbysiad cyhoeddus oedd 11 Mai 2022 ac felly ni all y dyddiad cyflwyno fod y tu hwnt i 10 Gorffennaf 2022.

5.7 Dylai'r Aelodau nodi, er bod y Cyngor yn gosod y tabl prisiau, y gall perchennog cerbyd hacni godi llai o bris ar gwsmer; y pris sydd wedi'i osod yw'r uchafswm a ganiateir.

6.0 ARGYMHELLIAD

6.1 Bod yr Aelodau'n ystyried yr holl sylwadau a dderbyniwyd, o blaid ac yn erbyn y cynigion ac yna'n penderfynu un ai:

- Cymeradwyo'r tariff arfaethedig fel mae wedi'i nodi yn Atodiad D gyda dyddiad cyflwyno ar 1 Gorffennaf 2022, neu
- Newid y tariff arfaethedig gyda dyddiad cyflwyno ar 1 Gorffennaf 2022, neu
- Wrthod y cynigion

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

HYSBYSIAD

Rhoddir rhybudd drwy hyn bod Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu amrywio'r cyfraddau neu'r ffioedd yn unol â darpariaethau adran 65 a 66 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Bydd y cynigion ar gyfer cyfraddau neu ffioedd fel a ganlyn: -

Tariff 1**Rhwng 07.00 – 22.59**Pris dechreuol (yn cynnwys y filltir gyntaf):
£3.50**£2.50 fesul milltir wedi hynny**

Amser aros – 30 ceiniog y funud.

Tariff 2**Rhwng 23.00 - 06.59 (ac eithrio gweler isod)**Pris dechreuol (yn cynnwys y milltir gyntaf):
£5.25**£3.75 fesul milltir wedi hynny**

Amser aros – 40 ceiniog y funud.

Dyddiau Sul. Gwyliau Cyhoeddus a Gwyl y Banc Sul y Pasg, Dydd Nadolig, Gwyl San Steffan a Dydd Calan yn ôl Tariff 2 Trwy'r Dydd.**Dydd Gwener a dydd Sadwrn.** Noswyl Nadolig a Nos Galan yn ôl Tariff 2 o 6pm ymlaen.

Bagiau (ar wahan i fagiau siopa, cadeiriau olwyn a chadeiriau gwrthio) tu allan i seddi teithwyr: 20 ceiniog am bob eitem.

Pob anifail domestig, ac eithrio cŵn tywys: 20 ceiniog am bob anifail domestig.

Tâl am Faeddu'r Cerbyd £100.00.

Tâl ychwanegol am bob teithiwr ar gyfer siwrneiau mwy na 4 teithiwr

Gellir archwilio copi o'r hysbysiad hwn am ddim yn y cyfeiriad isod, unrhyw ddiwrnod o'r wythnos rhwng 09.00 a 16.30, yn ystod y cyfnod 27 Ebrill 2022 – 10 Mai 2022. Dylid gwneud unrhyw wrthwynebiad i'r amrywiad arfaethedig uchod o'r cyfraddau neu'r ffioedd yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod, o fewn 14 diwrnod o'r dyddiad y derbynnir hwn, gyda'r pennawd Cynigion Taliadau Cerbydau Hacni. Os na cheir unrhyw wrthwynebiadau, bydd y newidiadau'n cael eu gweithredu 11 Mai 2022.

Dyddiad: 27 Ebrill 2022.**Trwyddedu, Caledfryn, Ffordd Y Ffair, Dinbych, LL16 3RJ.**

trwyddedu@sirddinbych.gov.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Ni fydd unrhyw oedi wrth ymateb i ohebiaeth a dderbyniwyd yn Gymraeg.

NOTICE

Notice is hereby given that Denbighshire Council intends to vary the rates or fares in accordance with the provisions of section 65 and 66 of the Local Government (Miscellaneous Provisions) Act 1976. The proposals for rates or fares will be as follows: -

Tariff 1**Between 07.00 – 22.59**Start fare (includes first mile) - **£3.50****£2.50 per mile thereafter**

Waiting time – 30p each minute.

Tariff 2**Between 23.00 – 06.59 (except see below)**Start fare (includes first mile): **£5.25****£3.75 per mile thereafter**

Waiting time – 40p each minute.

Sundays, Public and Bank Holidays, Easter Sunday, Christmas Day, Boxing Day and New Year's Day to be charged at Tariff 2 all day.**Friday & Saturday, Christmas Eve and New Year's Eve** to be charged at Tariff 2 from 6pm.

Luggage (excluding shopping, wheelchairs and pushchairs) outside the passenger compartment - 20p each item.

Carriage of each domestic pet, excluding guide dogs - 20p each pet.

Soiling Charge - £100.00.

Surcharge per passenger for journeys more than 4 passengers

A copy of this notice maybe inspected free of charge at the address below any weekday between 09.00 and 16.30 during the period 27 April 2022 to 10 May 2022. Any objection to the above proposed variation of the rates or fares should be made in writing to the address below within 14 days from the date hereof and headed Hackney Carriage Tariff Proposals. If no objections are received the changes will be implemented on 11th May 2022.

Dated: 27 April 2022.**Licensing Section, Caledfryn, Smithfield Road, Denbigh, LL16 3RJ.**

licensing@denbighshire.gov.uk

We welcome correspondence in Welsh. There will be no delay in responding to correspondence received in Welsh.

Tudalen 19

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Objections

Reference	Representation	Interested Party
1.	As a taxi driver in Prestatyn i think the times of changing to tariff 2 are unacceptable. The people i have had in my taxi recently have said they will stop using taxis on a sunday. I also think tha starting tariff 2 at 6pm on a Friday and Saturday is unacceptable. Maybe 9 or 10 o'clock would be suffice. I personally think a sunday should be tariff 1 until at least 6pm. Only my opinion and customers ive had in car	Licensed driver
2.	Hi Licensing team I agree with most of the increase but trarif 2 on a Friday and Saturday should remain at midnight as this will just cause problems to both drivers and the public in my opinion. Thanks	Licensed driver
3.	I don't work on weekend nights but using tariff 2 from 6pm will just kill the trade..Also no way will I be charging tariff 2 on a Sunday.A price increase is needed but let's face it ,we don't live in a big wealthy city so any price increase should be realistic. Personally I think either an increase to the start price or the mileage but not necessarily both.	Licensed driver
4.	Good morning As a licensed hackney driver in Denbighshire I feel some parts of the proposed increase are impractical. Whilst I have no objection to the increase as such, I think the proposal for tariff 2 to start at 6pm Friday and Saturday is unfair to many who will still need transport to and from work etc it would be preferred for this to be brought forward to 11pm rather than midnight. With regard to Sunday all day tariff 2 two this is just not practical as many of us feel it's a step too far and work will be lost as a result. I hope you take these into consideration for your decision.	Licensed driver
5.	Hi. I would like to object against the tariff increase,	Licensed driver

	<p>1, Tariff 2 6pm Friday night and 6pm Saturday night and all day Sunday, I feel it would price Taxis out the market as people will not use taxis as much as proven by the recent Easter weekend,</p> <p>2, Upping the start price will also I feel put customers off taking a Taxis as proven of the amount of Conwy residents (Kinmel Bay, Towyn and Abergele) use Denbighshire Taxis since Conwy put there prices up, so I feel its better for some work than nothing,</p>	
6.	I protest against the proposed fare price increase as I think it is not the right time in the current times	Licensed driver
7.	Hi, I would like give my opinion of the proposed fare increase, we are overdue for an increase, £3.50 for first mile is a decrease ,on a measured mile, at the present rate it amounts to £4.00 per mile taken into affect traffic conditions , i propose leave it as it is, just an increase of 50p on the start of Tariff 1 and 2, or £4 start on tariff 1 for first mile, and £5 start on tariff 2, hope all this makes sense thanks,	Licensed driver
8.	<p>Good Evening</p> <p>The proposed increase in tariffs would be a disaster for the local taxi industry.</p> <p>We have just had the pandemic which saw customer numbers plummet. It also saw the numbers of drivers willing to work plummet.</p> <p>Many drivers won't work at night which means the general public find it difficult to get a taxi in the evenings in Rhyl and Prestatyn.</p> <p>There is also a decline in numbers during the day.</p> <p>The cost of living is rising dramatically for households in all areas.</p> <p>The last thing the general public needs is a taxi rate rise.</p> <p>We are trying to encourage passengers back into taxis not chase them away with something they cannot afford.</p> <p>We already have complaints about how much fares cost.</p> <p>Tariff 2 all day Sunday.</p> <p>Nurses trying to get to the hospital on a Sunday with limited buses.</p> <p>Shop staff trying to get to work in Rhyl and Prestatyn on a Sunday.</p>	Licensed driver

	<p>Holiday makers wanting to go places in our area.</p> <p>The above all get paid at a normal rate for working these days. Why should we be different?</p> <p>Friday and Saturday nights in Rhyl, how many people walk home because they can't get a taxi from the pub/night club the numbers are more than you'd think. We need to try and encourage these people back into taxis not chase them away with higher fares.</p> <p>Holiday makers, do we not want to encourage them to come and spend money in our seaside town. To travel by taxi to their destinations from the railway station.</p> <p>The rate rise at the present time would actually make passenger numbers go down. All we would do is maybe still take the same amount of money with less passengers. Yes, less fuel and wear and tear. The other side, passenger numbers will fall off a cliff.</p> <p>You want people to use their cars less and use public transport and taxis to stop the congestion and parking issues in the town with a rate rise that will encourage more people to drive.</p>	
9.	<p>Good evening Nicky</p> <p>I want my objection to remain in place.</p> <p>Something I didn't put in the objection is we would be back to price wars as already stated by Steve Darbey.</p> <p>This doesn't be if it anybody and especially the drivers as they loose out on what they should be earning, state of vehicles suffer and with the new rules will further damage the industry.</p> <p>Thanks</p>	Licensed driver
10.	<p>Dear Sirs</p> <p>Taxi Charges</p>	Public

	<p>It seems that a rather standard formulation is being proposed where little consideration to the reasons for travel or the nature of the travellers has been given. With generally poor and deteriorating standards of public services the consequence will be that taxi services will continue to be seen as the last, unavoidable option for vital journeys by many people regardless of their circumstances or ability to pay. It will mean, inevitably, that some important travel is avoided. I am thinking here of journeys for medical treatments or appointments (possibly repetitive) or family emergencies, particularly where people are less able. on public benefits or straitened circumstance, or have no other public service option at all.</p> <p>It is recognised that a tariff arrangement is needed in a market where different providers must compete for business and where their costs will vary according to particular days/times, journeys and loads, but the proposed tariffs seem simplistically crude and not to have considered the imperatives for travel of potential passengers. If there is some means for a more imaginative approach to be considered it could have a marked beneficial impact on many who currently find themselves excluded.</p>	
11.	<p>Hi as a taxi driver myself for 22 years, reading your new tariff prices that you have proposed, i think they are way above inflation and will do damage to the trade, they will stop people from going out for meals and drinks in the evening, also push the older people who struggle to make ends meat, putting T2 start at 6pm Friday and Saturday and Sunday all day is outrageous, i have customers from abergele who go on a Friday to the plough at 7pm and back at 10pm. Cost at the moment is £25 for the whole job, new cost will be £50 and that'll be the last i see of them, St Asaph to Chester will also increase from £60 one way to £130 one way, outrageous. I also have a old lady who's goes from St Asaph to Rhyl bingo on a Friday at 6.30 and returns at 10pm, price at the moment is £24 new price will be £44.</p> <p>I'm not saying there shouldn't be an increase cos our costs have gone up, a start price of a extra £1 would be good but no change to the running price, example, most driver do about 20 jobs per day, so an extra £20 per day, £100 per week, £400 per month, which in my eyes is a good rise, the few people who have wanted the rise do not work on the streets and do account work so the big company's are paying the bills not Joe Public. I do hope you can change the new tariff as the trade can't do with anymore loss of customers.</p>	Licensed driver
12.	<p>FAO of the Licencing team,</p> <p>I'm writing to you to state my concern regarding the proposal to substantially raise the table of fares as of 11th May 2022.</p> <p>I personally feel the increase to the table is ridiculously excessive.</p>	Licensed driver


